YR ATODLEN

Amodau

RHAN 1

Amodau ar weithrediadau adeiladu

Terfynau sŵn a therfynau dirgryniad

3.—(1) Ni chaiff lefelau sŵn yn ystod gwaith adeiladu fod yn uwch na 65dB (LAeq, 1awr).

(2) Ni chaiff lefel dirgryniad y ddaear fod yn uwch nag—

(a) cyflymder uchaf gronynnau o 10 milimedr yr eiliad;

(b) cyflymder uchaf gronynnau o 1 milimedr yr eiliad ar 10 neu ragor o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 15 niwrnod yn olynol.

(3) Rhaid mesur terfynau sŵn a dirgryniad o 1 fetr i ffwrdd o unrhyw wedd derbynnydd preswyl.